***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 693

## Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011 a daw i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal reoli" ("*control area*") yw'r ardal, a ffurfir o dir yn siroedd Penfro, Ceredigion a Chaerfyrddin, sydd wedi ei lliwio'n goch ar y map a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru dyddiedig 7 Mawrth 2011 ac a farciwyd "Ardal Reoli Moch Daear 2011"(**1**); ac

ystyr "mochyn daear" ("*badger*") yw anifail gwyllt sy'n perthyn i'r rhywogaeth Meles meles o urdd y Carnivore.

(**1**) Cafodd y map ei adneuo ac mae ar gael i'w archwilio yn Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Gellir cael gafael ar gopi o'r map at ddibenion eglurhad yn unig yn www.wales.gov.uk/bovinetb.